

Rhifyn 26

Chwarae dros Gymru

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan y sefydliad cenedlaethol dros chwarae

Hydref 2008



Chwarae mewn amser a gofod



www.chwaraecymru.org.uk



Cynnwys

tudalen

Golygyddol	2
Newyddion	3-5
Cadw Cyfrinachau – o blaid preifatrwydd plant	6
O blaid y ffens	7
Yn erbyn y ffens	8
Chwarae mewn ysbytai	9
Tŷ Hafan yn dathlu Diwrnod Chwarae	9
Diwrnod Chwarae 2008	10
Rhodri Morgan ar Ddiwrnod Chwarae	10
Hwre! Mae Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P ³) Lefel 2 bellach yn gymhwyster wedi ei achredu ...	11
Asesu yw'r gair eleni – mae'n digwydd ym mhobman	11
'Take the Credit'	11
'Foundations of Playwork' – adolygiad llyfr	12
Gwobr Olympaidd	12
Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth sgiliau a chyflogaeth	13
Fforwm Gweithwyr Chwarae	13
Digwyddiadau	14
Ffarwelio â Ben	14
Pennu dyddiad ar gyfer Cynhadledd IPA 2011	14
Gwobrau Ymddiriedolaeth Goffa Y Fonesig Allen o Hurtwood 2009	14

Cyhoeddir Chwarae dros Gymru gan
Chwarae Cymru bedair gwaith y flwyddyn.

Cysylltwch â'r Golygydd yn:
Chwarae Cymru, Ty Baltig,
Sgwâr Mount Stuart,
Caerdydd CF10 5FH

Rhif ffôn: 029 2048 6050
E-bost: gwybodaeth@chwaraecymru.org.uk
Elusen Gofrestredig Rhif. 1068926

ISSN: 1755 9243

Nid barn Chwarae Cymru o reidrwydd yw'r
farn a fynegir yn y cylchlythyr hwn.
Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi.
Nid ydym yn ardystio unrhyw rai o'r cynnyrch
na'r digwyddiadau a hysbysebwr yn neu gyda'r
cyhoeddiad hwn.

Argraffwyd y cyhoeddiad hwn ar bapur a
gynhyrwyd o goedwigoedd cynaliadwy.

Dyluniwyd ac argraffwyd gan
Carrick
Ffôn: 01443 843 520
E-bost: sales@carrickdesignprint.co.uk

Golygyddol

**Efallai bod yr haf yn amser i ambell
Eun gael hoe, i ymlacio a myfyrio,
ond nid i'r sector chwarae – fel arfer,
mae darparwyr chwarae wedi bod yn
gweithio'n galed i sicrhau bod gan
blant a phobl ifanc Cymru fannau
gwych i chwarae. Tra bu'r plant ar eu
gwyliau haf, bu asiantaethau a
mudiadau'n gweithio i sicrhau bod
amser, gofod a rhyddid i bob plentyn i
chwarae yn dod yn fater o hawl wedi
ei warchod gan y gyfraith.**

Dros yr haf rydym wedi cynllunio
ymatebion i ddau ymgynghoriad
allweddol ynghylch chwarae a
chyfleoedd chwarae: ymgynghoriad
Gweithredu ar Diodi Plant Llywodraeth
Cynulliad Cymru ac ymgynghoriad
Cyfrifon Cwsg Cronfa'r Loteri Fawr a
Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r ymgynghoriad olaf, ar sut y dylid
gwario arian, yn gyfle arall i ddylanwadu
ar wario rhan o'r £10-12 miliwn
amcangyfrifedig sydd ar gael yng
Nghymru. Wrth gwrs, rydym ni'n credu y
dylid ei wario ar ddarparu neu gynnal
cyfleoedd chwarae o safon. Hoffem
annog darllenwyr i ymateb i'r
ymgynghoriad hwn gan bledio achos
chwarae – mae gennym dystiolaeth
ddibynadwy y gall nifer a chryfder yr
ymatebion o'r sector chwarae wneud
gwir wahaniaeth i sut y caiff yr arian ei
glustnodi.

Rydym yn croesawu lansiad adroddiad
newydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol
gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant – *Dawn
Ddedwydd – mynediad plant a phobl
ifanc anabl i chwarae yng Nghymru
2007 – adolygiad o strategaethau
awdurdodau lleol a sut y maent yn
darparu ar gyfer cyfleoedd chwarae ar
gyfer plant anabl. Efallai nad oedd y
tywydd yn wych ar gyfer chwarae'r tu
allan ond y tu mewn i'r babel yn ystod y
drafodaeth a'r ddadl, roedd yr
ymrwymiad gan nifer o wleidyddion i
sicrhau newid ac i gwestiynu bylchau
mewn gwasanaethau'n gwbl eglur a
chalonogol.*

Fel y nodwyd yng nghanfyddiadau *Dawn
Ddedwydd*, mae strategaethau llawer o
awdurdodau lleol yn dal i fod ar ffurf
drafft. Rydym yn cydnabod bod llawer yn
gweithio'n galed i gwblhau eu

strategaethau a hyderwn y bydd yr
adolygiad hwn, a'r posibilrwydd y caiff
dyletswydd statudol ei gosod ar
awdurdodau lleol, yn helpu i gynnig
ysgogiad a chyfeiriad. Yn ogystal, er
mwyn gwneud y gorau o ail rownd cyllid
rhaglen Chwarae Plant Y Loteri FAWR,
bydd angen i brosiectau chwarae sydd
am ymgeisio arddangos sut y mae eu
gwaith yn cyfannu strategaethau
chwarae lleol.

Roedd y rheini ohonom sy'n gweithio ar y
cylchgrawn hwn yn hynod o falch pan
gyfeiriodd yr Arglwydd "Battling" Barry
Jones o Sir y Fflint at Chwarae dros
Gymru yn gynharach eleni yn Nhŷ'r
Cyffredin ... mae mor braf gwybod ei
fod yn cael ei ddarllen a'i gael yn
ddefnyddiol, hyd yn oed gan ddim ond
un darlennydd hapus! Gobeithio y cewch
eiliad i gwblhau'r daflen werthuso
amgaeedig (neu ar ein gwefan ar
www.chwaraecymru.org.uk) – pe bai ond
i brofi inni fod mwy nag un darlennydd
allan yna ... ond o ddifri', rydym yn
derbyn adborth sy'n awgrymu bod nifer
fawr o bobl yn darllen *Chwarae dros
Gymru* ac rydym am sicrhau ei fod cystal
â phosibl.

Ac yn olaf, mae arwyddion 'Dim
Chwarae Pêl' yng Nghasnewydd wedi
cael eu disodli gan arwyddion
'Chwaraewch Yma' – llongyfarchiadau i
bawb a wnaeth i hyn ddigwydd. Oni
fyddai'n wych i weld yr un arwyddion
mewn cymunedau dros Gymru gyfan?

Mike Greenaway
Cyfarwyddwr, Chwarae Cymru



Cynhadledd yr IPA 2011

Cynhelir cynhadledd yr International
Play Association 2011 yn Neuadd y
Ddinas Caerdydd o Ddydd Llun 4
Gorffennaf tan Ddydd Gwener 8
Gorffennaf 2011 – felly cofiwch bawb
i'w roi yn eich dyddiadur nawr!


Am fwy o fanylion gweler tudalen 14

Diolch o galon i bawb a gyfranodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud
heboch chi. Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru*, yn ogystal â rhifynnau blaenorol,
ar gael i'w llwytho i lawr o adran newyddion ein gwefan ar www.chwaraecymru.org.uk.



Ansawdd Chwarae

Mae Cynllun Sicrhau Ansawdd yn cael ei ddatblygu ar gyfer darparwyr chwarae a gofal plant yng Nghymru. Bydd y cynllun hir-ddisgwyliedig hwn yn galluogi darparwyr chwarae mewn gofal plant y tu allan i'r ysgol a chynlluniau chwarae mynediad agored i arddangos ansawdd eu darpariaeth, ac i gynyddu safonau, er mwyn i blant a phobl ifanc yng Nghymru gael y profiadau gorau posibl o fynychu.



Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs sydd wedi ennill y **tendr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ysgrifennu rhaglen sicrhau ansawdd ar gyfer clybiau gofal plant y tu allan i'r ysgol a darpariaeth chwarae mynediad agored. Caiff y cynllun ei deilwra i gydweddu ag anghenion plant a phobl ifanc yng Nghymru a'i ddatblygu'n unol â'r Polisi Chwarae dros Gymru (2002).**

Caiff y cynllun dwyieithog ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â phlant, rhieni, darparwyr chwarae a gofal plant, llywodraeth leol a chanolog, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a chyfranddallwyr allweddol

eraill. Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â meysydd allweddol er mwyn cydnabod pwysigrwydd a gwerth chwarae i fywydau plant. Bydd Wales Quality Centre, Chwarae Cymru a Creating Media (ymgynghorydd dylunio a chyfryngau) i gyd yn cyfrannu eu barn wrth ddatblygu'r cynllun.

Yn ystod yr Hydref, gwahoddir cyfranddallwyr i gymryd rhan mewn grwpiau ffocws. Disgwylir i'r gwaith o ddatblygu'r cynllun i gael ei gwblhau erbyn mis Chwefror 2009.

Am fwy o wybodaeth cysyllter â Jane Burdett ar 029 2074 1000 neu trwy e-bost: janeb@clybiauplantcymru.org

Diwrnod Chwarae yn yr Eisteddfod

Fel rhan o ddatliadau cenedlaethol Diwrnod Chwarae ar y 6ed o Awst, fe ddangoswyd ein ffilm fer *Gwthio Eddie yn y Danadl Poethion gyda Connor* yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.

Cafodd hyn ei ddilyn gyda thrafodaeth dan **Carweiniad y cadeirydd ynghylch mynediad plant i her ac antur yn eu chwarae.**

Cadeiriwyd y drafodaeth hon gan Marc Phillips, Cyfarwyddwr BBC Plant Mewn Angen, ac ar y panel roedd Louisa Addiscott, hyfforddwraig ac aseswraig gwaith chwarae, a Gareth Jones, o Swyddfa'r Comisiynydd Plant. Roedd Helen Mary Jones AC yn bresennol hefyd a chymerodd ran yn y drafodaeth fywiog.



Cyfrifon cwsg



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CRONFA
LOTERI
FAWR
BIG
LOTTERY
FUND

Mae'r Gronfa Loteri FAWR a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi lansio ymgynghoriad ynghylch gwariant sy'n deillio o gyllid mewn cyfrifon cwsg yng Nghymru. Mae tua £10-£12 miliwn o gyllid ar gael ar gyfer Cymru - y bydd MAWR yn ei ddosbarthu ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yr ymgynghoriad hwn yw eich cyfle chi i ddylanwadu ar sut a ble y dylid ei wario.

Mae'r ddogfen ymgynghori'n amlinellu'r blaenoriaethau cyffredinol a glustnodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y gronfa (pobl ifanc a newid yn yr hinsawdd yn bennaf). Mae gennym dystiolaeth y gall ymateb i ymgynghoriadau ddylanwadu ar wneud penderfyniadau ar lefel llywodraeth. Rydym yn galw ar bawb sydd â diddordeb mewn chwarae plant i ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan bledio achos dros ariannu darpariaeth chwarae yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad yn agored i unrhyw un i ymateb iddo, ac os y bydd llawer ohonom yn cyfrannu bydd yn cynrychioli cyfle sylweddol gwirioneddol inni gynyddu ariannu chwarae.

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 14 Tachwedd 2008.

Am fwy o wybodaeth ac i ymateb i'r ymgynghoriad, ymwelwch â: www.biglotteryfund.org.uk/wales



Canllawiau chwarae newydd

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn diwygio Nodyn Cyngor Technegol 16 (*TAN 16*), sy'n darparu canllawiau technegol i gefnogi Polisi Cynllunio Cymru (2002).

Mae *TAN 16* yn cynghori ar rôl y system cynllunio wrth ddarparu ar gyfer cyfleusterau chwaraeon ac adloniant, a manau agored anffurfiol, yn ogystal ag amddiffyn cyfleusterau a manau agored sy'n bodoli eisoes i gwrdad ag amrywiol anghenion adloniadol ardaloedd trefol a gwledig Cymru.

Caiff y *TAN* diwygiedig ei lansio gan Jane Davidson, Y Gweinidog Dros Yr Amgylchedd, Cynladwyedd a Thai, ym mis Medi.

Mae cyhoeddiad newydd *Planning and Design for Outdoor Sport and Play* gan *Fields in Trust (FIT)* yn disodli ac yn diweddarau'r 'Six Acre Standard'.

Mae *Planning and Design for Outdoor Sport and Play* yn parhau i arddel argymhellid gwreiddiol *FIT* bod angen chwe erw o ofod adloniadol ar gyfer pob mil o bobl – meincnod gafodd ei dderbyn fel y safon ddisgwyliedig gan y diwydiant cyfan ers ei bennu yn y 1930au. Mae hefyd yn darparu fframwaith manwl o'r materion sy'n ymwneud â nifer, safon a hygyrchedd cyfleusterau awyr agored ar gyfer chwaraeon a chwarae a phwysigrwydd asesiadau a safonau lleol.

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â: www.npfa.co.uk

Comisiynodd *Play England* y *Free Play Network* i gynhyrchu *Design for Play: A guide to creating successful play spaces*. Bydd y Canllaw yn helpu'r rheini sydd ynghlwm â chomisiynu a dylunio manau ar gyfer chwarae, i roi chwarae wrth galon y ddarpariaeth.

Mae'r Canllaw'n dangos sut i dylunio manau chwarae da, sy'n fforddiadwy i'w cynnal a'u cadw, ac sy'n rhoi rhyddid i blant a phobl ifanc chwarae'n greadigol, ond eto i brofi risg, her a chyffro. Mae'r Canllaw'n amlinellu agwedd newydd, yn chwala rhywfaint o chwedlau diweddar, ac yn anelu i herio darparwyr i feddwl yn fwy ochrol a chreadigol ynghylch plant a phobl ifanc yn y maes cyhoeddus.

Mae'r canllaw hwn ar gael yn rhad ac am ddim. Gallwch ei archebu a'i lwytho i lawr oddi ar wefan *Play England*: www.playengland.org.uk

Ymchwil *Play for a Change*

Mae adroddiad *Play for a Change* yn egluro'r dystiolaeth eang a sylweddol sydd ar gael ynghylch pwysigrwydd chwarae ym mywydau plant.

Mae *Play for a Change* yn adolygiad o safbwyntiau ar chwarae, polisi ac arfer a gyflawnwyd ar ran *Play England* gan Stuart Lester a Wendy Russell o Brifysgol Caerloyw. Mae'r adolygiad yn cyfannu ac yn diweddarau'r adolygiad a gwblhawyd ar gyfer y *Children's Play Council* yn 2001.

Gellir llwytho dogfen chwe tudalen i lawr o adran adnoddau gwefan *Play England* – www.playengland.org.uk.

Cyhoeddir yr adroddiad llawn a 'chrynodeb' trigain tudalen erbyn diwedd mis Medi 2008.

Canllaw i reoli risg mewn darpariaeth chwarae

Mae'r ymgynghorwyr Bernard Spiegel, David Ball a Tim Gill yn cynhyrchu canllaw gweithredu ymarferol i reoli risg mewn darpariaeth gofod chwarae. Derbyniodd y *Guide to Managing Risk in Play Provision* gytundeb y *Play Safety Forum* (grŵp sy'n dwyn ynghyd sefydliadau o bob cwr o'r DU sydd â diddordeb mewn diogelwch chwarae, gan gynnwys Chwarae Cymru) ac fe'i cyhoeddir yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

Bydd y canllaw'n annog agwedd tuag at ddarpariaeth chwarae sydd ddim yn chwilio'n reddfol am y llwybr 'diogel', ond sy'n galluogi darparwyr chwarae i ddatblygu a rheoli darpariaeth chwarae symbylol a heriol. O'r herwydd, bydd plant yn gallu profi risg a pherygl o fewn fframwaith proffesiynol, deallus sydd ddim yn gwrthdaro â dyletswydd gofal cyfreithiol a moesol y darparwyr.

Bydd yr adnodd hwn yn ganllaw 'sut i' ar gyfer rheoli risg mewn darpariaeth gofod chwarae a bydd yn cynnwys trafodaeth ynghylch oblygiadau athronyddol ceisio herio darpariaeth gwrth-risg.

Bydd y canllaw yn cyfannu datganiad safbwynt y *Play Safety Forum* ar gyfer pawb sydd ynghlwm â darpariaeth chwarae – *Managing Risk in Play Provision* – y gellir ei lwytho i lawr ar www.playengland.org.uk



Adroddiad Y Comisiynydd Plant



Yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd lansiodd Swyddfa'r Comisiynydd Plant adroddiad newydd ar blant a phobl ifanc anabl a chwarae. Mae'r adroddiad, *Dawn Ddedwydd – mynediad plant a phobl ifanc anabl i chwarae yng Nghymru 2007* yn adolygiad o strategaethau chwarae awdurdodau lleol.

Mae'r adroddiad wedi ei seilio ar strategaethau chwarae ugain o awdurdodau lleol, y mae

llawer ohonynt yn dal i fod ar ffurf drafft. Mae canfyddiadau'r adroddiad yn cynnwys: 'Mae rhai strategaethau'n cynnwys datganiadau sy'n dweud y dylid cynllunio pob darpariaeth chwarae ar gyfer y dyfodol i gynnwys anghenion plant anabl o'r dechrau cyntaf, heb gyfeirio o gwbl at gynlluniau ar gyfer gwella darpariaeth sy'n bodoli eisoes. Mae'n ymddangos fel pe bai sicrhau bod chwarae'n gynhwysol o bob plentyn yn ôl-ystyriaeth, yn hytrach na bod yn rhan annatod o ddatblygiad pob polisi a strategaeth ... Mae rhai o'r strategaethau'n dynodi bod anabledd yn rwystr i gael mynediad i chwarae; ond, yn anffodus, nid ydynt yn nodi'n gwbl eglur sut y caiff y rhwystr hwn ei oresgyn.'

Yn y lansiad cafwyd trafodaeth banel oedd yn cynnwys Helen Mary Jones AC, sy'n cadeirio'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, a ddywedodd:

'Mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi ymrwmo i sicrhau bod cyfleoedd chwarae'n gwella ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Rydym yn gwybod bod enghreifftiau o arfer da mewn rhai rhannau o Gymru, ond rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn delio â'r bylchau sy'n bodoli rhwng polisi cenedlaethol a'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad. Rwy'n awyddus i wneud yn siŵr bod partneriaethau lleol yn tyfu'n fwy atebol dros sut y maent yn cynllunio ac yn datblygu gwasanaethau chwarae ar gyfer pob plentyn.'

Gellir llwytho'r adroddiad, a fersiwn i blant ohono, i lawr o wefan y Comisiynydd Plant: www.childcomwales.org.uk

Ymchwil gwerthuso Canolfannau Plant Integredig

**Comisiynodd Cronfa Loteri FAWR (MAWR) y
National Foundation for Educational Research
(NFER) i werthuso gwaith Canolfannau Plant
Integredig (CPI) yng Nghymru.**

Fel rhan o'r strategaeth i sicrhau mynediad i ofal plant o safon ar gyfer rhieni sy'n gweithio neu ar gyfer rhieni sy'n dymuno ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant, mae gofyn i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddatblygu o leiaf un CPI i

gynnig gwasanaethau ar gyfer plant a'u teuluoedd. Mae MAWR wedi darparu cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf ym mhob un o'r CPI presennol.

Bydd yr ymchwil yma'n para dros ddeunaw mis, ac yn gwerthuso i ba raddau y mae nodau'r Canolfannau'n cael eu cyflawni, natur eu gweithgareddau a'u heffaith, os ydynt ac i ba raddau y mae'r CPI yn hybu gweithio aml-asiantaeth, ac effeithlonrwydd strwythurau rheoli ar lefel strategol a gweithredol.

Adolygiad o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Caiff gwasanaethau gwarchod plant a gofal dydd ar gyfer plant dan wyth mlwydd oed eu rheoleiddio yng Nghymru dan Ddeddf Plant 1989. Cofrestrir ac arolygir y sefyllfaoedd hyn gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, bydd yn rhaid i AGGCC ystyried y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC). Ceir chwe set o'r safonau hyn, sy'n delio yn eu tro â gwarchod plant, gofal dydd llawn, meithrinfeydd, gofal sesiynol, gofal plant y tu allan i'r ysgol a chwarae mynediad agored.

Gan nad yw'r fframwaith rheolyddol wedi newid fawr ddim ers mis Ebrill 2002, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y broses o

gynnig gwaith ar gytundeb i gyflawni adolygiad o'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i reoleiddio gwarchod plant a gofal dydd yng Nghymru, yn cynnwys y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC).

Y bwriad yw hwyluso trafodaeth ymysg pleidiau perthnasol, ynghylch effeithlonrwydd parhau â'r deddfwriaethau presennol. Bydd y contractwr llwyddiannus yn paratoi papur yn amlinellu'r canlyniadau a chynigion ar gyfer newidiadau posibl i'r fframwaith rheolyddol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, fydd yn codi o'r ymgynghoriad gyda chyfranddalwyr. Gallai'r papur hwn gynnwys argymhellion, yn amrywio o fwrriad cychwynnol i ddefnyddio Mesur gan y Cynulliad i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, i newidiadau manwl a brys gan gynnwys diwygio rheoliadau a SGC cyfredol.



Cadw Cyfrinachau – o blaid preifatrwydd plant

Mae llwybr gwyrdd llachar yn rhedeg ar hyd bôn wal gefn maes chwarae, sydd â iorwg yn hongian drosti. Yn drwchus fel y jungl, mae'r llwybr yn troelli o amgylch coeden, dan fwa arall, ac yna'n sydyn yn agor allan ar lannerch braf. Saif coed tal ar dair ochr i'r llannerch ac mae'r ddaear o dan draed wedi ei sathru'n bridd noeth. Mae darnau o ddefnydd yn siglo o'r canghennau uwchlaw, gan symud yn araf yn yr awel hydrefol laith. Yn y llannerch saif bwrdd gafodd ei lusgo yno o'r prif adeilad, gyda dwy gadair wedi eu gosod yn gyfleus gerllaw. Mae un gadair â'i phen i lawr, fel pe bai parti bychan wedi cael ei chwalu'n ddirybudd.

Fe ddychwelais i'r llecyn hwn yn y Maes Chwarae Antur yn rheolaidd wedi imi ei ganfod y tro cyntaf, gan gadw siartiau gofalus o'r newidiadau a wnaethpwyd yno ar derfyn pob diwrnod. Roeddwn yn catalogio tystiolaeth o ddiwylliant a grewyd y tu hwnt i olwg oedolion a'r tu hwnt i'w rheolaeth.

Mae mannau preifat yn cynnig cymaint yr ydym yn ei ystyried yn hanfodol i chwarae, ac i blentynod. Mewn byd sy'n llawn tactegau marchnata croch, cyfundrefnau academaidd pwysau uchel, profion ysgol a chymdeithasol di-baid, yn ogystal â 'helicopter parenting' a CCTV, mae gwir breifatrwydd dan fygythiad – ac yn fwy angenrheidiol nac erioed. Mae man ble y gall plentyn fod ar ei ben ei hun o'i wirfodd, yn caniatáu i'r plentyn unigol ddysgu ac ymarfer technegau unigrwydd ac annibyniaeth, i archwilio potensial unigrwydd ar gyfer ymlacio, myfyrio, lloches ac arbrofi.

Cyfeiriodd Carl Jung at y man preifat fel 'caer' ar gyfer yr unigolyn annibynnol newydd, fel maes prawf ar gyfer technegau hunaniaeth. Yn ddiweddarach, dadleuwyd bod y cysyniad o breifatrwydd a chyfrinachedd yn 'perthyn yn agos i sicrhau hunaniaeth a hunan-barch' (R. Bechtel ac eraill, *The Handbook of Environmental Psychology*, 2002) ac yn gysylltiedig ag 'annibyniaeth, grym personol ac annibyniaeth cadarnhaol' (Manen, Max van de Levering, Bas. *Childhood's Secrets: Intimacy, Privacy and the Self Reconsidered*, New York Teachers College Press, 1996). Mae amser gaiff ei dreulio gyda'r hunan mewn man cysgodol, diogel yn hanfodol i alluogi'r unigolyn i greu ffiniau, a'r ymdeimlad cyfredol o'u gwerth personol sy'n angenrheidiol i'w cynnal gydag eraill.

Mae astudiaeth o guddfannau neu wersylloedd a wnaethpwyd ar gyron mannau chwarae'n arddangos sut y mae'r cuddfannau gorau yn rhai manteisgar, sy'n cynnig gwerth chwarae yn y broses o chwilio am a chreu mannau preifat. Trwy sleifio i fannau 'o dan ac y tu ôl' i offer sefydlog eu byd, mae

plant yn ymarfer sgiliau dichell a chadw cyfrinachau wrth iddynt ddod o hyd i, etifeddu a chreu byd o'r newydd. Mae mannau cymunedol preifat plant yn cynnig cyfle i ffurfio ac actio diwylliant, i rannu gwybodaeth ac i gymryd rhan mewn rhannu-cyfrinachau, defnyddio sylweddau anghyfreithlon, arbrofi gyda iaith a strategaethau cymdeithasol. Golyga hyn ddatblygu byd o fewn mannau chwarae, ond hefyd ar wahân i'r byd. Tra'n cynnig cyfle i blant ddysgu a threfnu hyn i gyd drostynt eu hunain, mae preifatrwydd hefyd yn un o'r anghenion chwarae anoddaf i'w ddarparu, ac i eiriol drosto.

Mae'r maes chwarae ei hun yn ffrâm ffisegol a chymdeithasol o amgylch y gofod, ac mae'n ffurfio cyd-destun ar gyfer y chwarae sy'n digwydd oddi mewn iddo. Gan amlaf mae cuddfannau a chaerau wedi eu cuddio o fewn is-leoliadau wedi eu hamgylchynu a'u sgrinio gan goed, gwrychoedd ac offer chwarae sefydlog. Yn ddelfrydol, byddant yn cynnig lloches yn ogystal â gwylfan, a'r gallu i weld heb gael eich gweld. Yn aml iawn caiff rhannau rhydd fel dodrefn a ffabrig eu cynnwys. Sut allwn ni greu system o fannau sy'n darparu ar gyfer,

ac sydd hyd yn oed yn annog, eu is-leoliadau creadigol eu hunain? Mae ein gwaith o arsylwi ar fannau cudd, o 'gllirio lan' rannau rhydd o'r safle ar ddiwedd y dydd, i gyd ag oblygiadau uniongyrchol i hawliau plant i breifatrwydd ar y safle.

Mae ofnau oedolion ynghylch rhyw a thrais yn dweud mwy writhym am ein pryderon ein hunain yn hytrach nag ymddygiadau plant. Mae lan i ni i ddod i delerau â hyn, oherwydd heb gyfleoedd i ddysgu ac i ymarfer technegau o fod ar eu pen eu hunain a bod ar eu pen eu hunain gydag eraill, sut mae plant i dyfu'n asiantau cymdeithasol medrus? Sut mae disgwyl iddynt ddysgu a chynnal ffiniau personol eu hunain ar eu prifant? Sut i ymddiried, sut i fod yn ddibynadwy, sut i fod yn ddewr mewn cwmni newydd, sut i wneud a chadw ffrindiau – caiff hyn i gyd ei ddysgu rhwng plant pan na fyddwn ni o amgylch. Gan amlaf bydd y sefyllfaoedd mwyaf dychrynlyd yn digwydd pan nad oes oedolion yn gwyllo, felly faint gwell yw hi inni ddarparu 'llecynnau' o breifatrwydd,

cyfleoedd manteisgar ar gyfer arbrofi gyda phreifatrwydd, o fewn strwythur o oedolion cefnogol a chyfrifol. Oherwydd hyn, a'n hymrwymiad hirsefydlog i hawliau ac anghenion plant, y mae oedolion mewn chwarae mewn sefyllfa ddelfrydol i eiriol hefyd dros hawliau plant i breifatrwydd

Ysgrifennwyd yr erthygl hon gan Morgan Leichter-Saxby, gweithiwr chwarae, ymchwilydd ac ymgynghorydd o America, sy'n gweithio'n y DU. Mae'n gweithio gydag amrywiol grwpiau i hyrwyddo chwarae rhydd a chynhwysol.





O blaid y ffens

Penny Wilson sy'n disgrifio ac yn pwysleisio pwysigrwydd ffiniau i warchod cyfleoedd chwarae plant mewn ardal drefol.

Ble bynnag ewch chi yn y bwrdeistref ble rwy'n gweithio, fe welwch chi'r etifeddiaeth a adawyd ar ôl y bliets. Yn Shadwell mae pob adeilad yn llwyd a sgwâr. Mae arwyddion ar bob gofod sydd ar gael ar gyfer chwarae'n dweud: 'Dim Chwarae Pêl'. Nid yw'r cartrefi wedi eu cynllunio gyda unrhyw ystyriaeth i blant. Caiff plant eu amgylchynu gan wahanol rywstrau sy'n golygu bod symud o amgylch y bwrdeistref cyn anodded â fflic-fflacio eich ffordd trwy rwydwaith o larymau laser. Mae pob gofod yn eithrio plant a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw – chwarae.

Mae'r unig leoedd ble y caniateir chwarae yn ardaloedd chwarae bychain afiach yn llawn lliwiau llachar gyda chlymau o fetal y tu mewn iddynt. Yn y rhan fwyaf ohonynt ceir dwy res o reiliau i wahanu'r gwahanol oedrannau – plant hyn mewn un ardal, plant iau yn y llall. I mi, mae hyn yn ffordd i wneuthurwyr offer chwarae werthu rhagor o offer – ac yn ffordd o wneud yn siŵr ein bod yn cadw rheolaeth lem dros y plant. Mae'n amlwg nad ydyn nhw'n ddigon diogel i chwarae gyda'i gilydd nac fel rhan o'r gymuned!

Felly rwy'n cerdded ar hyd Cable Street. Mae'n teimlo fel pe bawn yn cerdded trwy geunant gyda slabiau o greigiau ar bob llaw, a chechru parhaus yr arwyddion 'Dim Chwarae Pêl'. Mae'n nhw'n cnoi'n araf bach ar ddiwylliant isymwybodol y gymuned ar ei phrifant a'r gymuned oedolion: 'Mae chwarae'n ddrwg – peidiwch â chefnogi chwarae,' 'Dylech "amharchu" chwarae pryd bynnag y dewch ar ei draws,' 'Nid yw chwarae'n cwl nac yn dderbyniol.'

Yna rwy'n ei gweld. Ffens arall, arwydd arall o fachu tir, ond yma mae siapau anferth o blant wedi eu torri allan wedi eu creu a'u paentio gan y plant eu hunain. Mae yma arwyddion croeso sy'n meddwl hynny o ddifrif – mae'n nhw'n dweud, 'Fe gei di chwarae yma!' mewn ysgrifen fras i bawb i'w weld – mae'r arwyddion hyn yn dathlu plant, yn hytrach na'u gormesu neu eu heithrio. Ac oddi mewn i'r ffens wych, pa drysorau sydd wedi eu cuddio yn y blwch botymau anferth agored hwn ar gyfer y plant ...?

... sblash o liw, cynnwrf o sŵn. Ysgerbwd ffair fach neu syrcau od, wedi ei addurno â hen arwyddion ffyrdd a chonau traffig, wedi eu plastro â phaent igam-ogam mewn cyffyrddiadau tyner, doniol, unigryw. Mae'r man chwarae hwn yn symbol o afiaith bywyd – yn hytrach na ennyd 'Kodak' wirion o liwiau llachar.

'Dewch yn llw blant, croeso i Faes Chwarae Antur Glamis, yr amgylchedd sy'n gwneud i fyny am Shadwell!'

Yn Shadwell mae plant yn byw mewn tyrau fflatiau ond 'does dim modd iddynt gael unrhyw ymdeimlad o uchder yno; fyddan nhw fyth wedi dringo coeden. Yma, fe allan nhw sgramblo lan y strwythurau a phrofi eu nerfau ar y bont 'raiders of the lost ark' wrth iddynt edrych i lawr ar doeau'r tai o'u hamgylch. Gallant synhwyro eu marwolaeth ym mhwl eu stumog wrth iddynt grynu ar drothwy'r gwmp, siglo yn ôl a blaen, cwllwm y sedd yn eu llaw, cyn cwmpo tua'r ddaear ... bron.

Gallant gynnau tanau yn y twll. Gallant fwyta'r grawnwin y maent yn eu tyfu ac mae ganddynt lain o dir i arddio ynddi, os hoffon nhw. Fe allan nhw gymryd risg go iawn a gwisgo lan mewn gwn



ddawnsio hir sgleiniog a wig coch dychrynlyd, creu bydoedd bychain o deganau bychain bach ... gan efallai geisio creu byd y maent yn ei ddeall a'i ddymuno. Mae'r bechgyn yn eu harddegau'n llusgo'r matiau diogelwch at lwyfan ac yn gorweddian arnynt – gan chwerthin a dweud straeon yn dawel. Mae'r merched yn mwynhau teimlo eu sgarffiau'n cyhwfan y tu ôl iddynt wrth iddynt hedfan, hedfan go iawn, trwy'r awyr, yn ysgafn, ar y siglen.

Allai hyn ddigwydd pe na bai'r ffens yma i amlinellu'r gofod? Pe na bai'r ffens yn adleisio neges y tyrau gwyllt – y minarêts sy'n galw'r plant i chwarae, sy'n bloeddio neges bod croeso i blant yma ac mae eu chwarae yw'r gwaith pwysicaf sydd i'w wneud? A fyddai'r gofod yma wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer datblygiad tai newydd arall eto? Fwy na thebyg – mae pob tamaid bychan arall o dir yn llawn dop o waith adeiladu.

Mae'n rhaid i ddatblygiadau adeiladu newydd, yn ôl y gyfraith, gynnwys mannau chwarae ar gyfer plant. Ond fel y gwyddom, mae'r syniad o ofod y gellir chwarae ynddo wedi cael ei gamddefnyddio gymaint gan gynllunwyr a phenseiri, fel bod y gofod ger biniau sbwriel ar olwynion a rhwng ceir wedi eu parcio'n cael eu clustnodi'n fannau i blant. Sôn am fannau eithrio!

Ym Maes Chwarae Antur Glamis mae'r ffens yn cynnal yr amgylchedd. Mae fel croth, yn fan i greu, yn fan sy'n wahanol i unrhyw le arall. Dywedodd un o blant Glamis (8 oed) 'Allan ar y strydoedd mae'n rhaid imi fod yn cwl ac yn galed. Ond mewn yn fan hyn fe alla' i ymlacio a bod yn fi fy hun a chwarae.'

Rwy'n cefnogi'r ffens yma gan ei bod fel rhes o faneri, yn ddathliad – yn fuddugoliaeth i reswm yn erbyn masnach.

Gellir llwytho fersiwn lawn o'r erthygl hon i lawr oddi ar ein gwefan.



Yn erbyn y ffens

Maria, sy'n naw mlwydd oed, sy'n sôn am yr effaith negyddol gaiff ffensio ardaloedd chwarae ar gyfleoedd chwarae.

Rydw i a fy nheulu'n byw yng Nghymru ac fe aethon ni i Lundain Ram y penwythnos ym mis Mai. Pan aeth Dad a fy nau frawd i wylio ein ffrind yn chwarae pêl-droed, fe ofynnodd Caitlin, fy chwaer, a minnau i gael mynd i'r parc. Roedd *Regent's Park* gerllaw. Roedd yn fawr ac yn 'posh' ac yn frenhinol iawn gyda llawer o flodau pert.

Roedden ni wrth ein bodd yno. Fe fuon ni'n archwilio'r llwyni a'r blodau, yn chwarae llam llyffant, yn casglu blodau oddi ar y coed ac yn rhedeg ar ôl colomennod. Yna fe ddaethon ni o hyd i ardal chwarae gyffrous. Roedd yn edrych yn dda, oherwydd roedd tywod a rhisgl ar lawr yno, a llwythi o ardaloedd chwarae mawr. Yr unig broblem oedd, roedd y gât ar glo. Fe lwyddodd Mam i'n darbwyllo mae'n rhaid bod gwaith yn cael ei wneud ar yr ardal chwarae, ac roedd y parc yn le mor fawr, efallai y gallen ni ddod o hyd i ardal chwarae arall.


Fe chwaraeodd Caitlin a minnau lam llyffant draw tuag at Sŵ Llundain. Fe ddaethon ni o hyd i barc arall, hyd yn oed yn well, ond roedd hwn ar glo hefyd. Fe edrychodd Mam ar yr oriau agor. Roedd i fod i gau am 7.30pm, ond doedd hi ond yn 6.30pm. Doedd dim golwg o waith atgyweirio'n cael ei wneud yn hwn 'chwaith.

Roeddwn i wedi fy siomi, ond yn synnu fy mod yn teimlo fel dringo dros y ffens er mwyn mynd i chwarae. Dechreuais ddringo cyn stopio ac edrych dros fy ysgwydd i ofyn, 'Mam, fe wnei di fy nghefnogi os y ca'i fy nal, yn gwnei?'

'Gwnaf siŵr, dos i mewn os wyt ti eisiau,' meddai Mam, gan edrych o'i hamgylch (i wneud yn siŵr nad oedd neb yn gwyllo, rwy'n credu).

'Dwi ddim yn credu ei bod yn poeni, oherwydd roedd yr arwydd yn dweud y dylai'r ardal chwarae fod ar agor. Efallai bod y gofalwr, neu pw y bynnag oedd yn gyfrifol am y parc, yn cael egwyl. Ond doedd Caitlin ddim am ddod i mewn gyda mi, oherwydd roedd yn meddwl y byddai'n cael ei dal.

Wedi rhedeg o amgylch am ychydig, a mynd ar y siglen ac i lawr y llithren gwplw o droeon, dechreuais boeni braid gan fod rhai pobl yn mynd heibio ar eu beics yn edrych arna' i fel pe baen nhw am ddweud wrth rhywun amdanda' i – felly fe ddringais allan yn ôl.



Fe adawon ni'r parc i ddechrau cerdded yn ôl at yr hostel.

'Ydi Chwarae Cymru'n mynd i sortio hyn mas?' gofynnais i Mam.

'Ond mae fan hyn yn Lloegr,' meddai Mam.

'Wel gobeithio dy fod am ddweud wrth Play England felly!' meddai fy chwaer.

Dyweddodd Mam efallai y bydden ni'n ysgrifennu llythyr. Yn y diwedd roedd yn weddol cwl, oherwydd fe gefais i'r parc cyfan i mi fy hun ac roeddwn i'n teimlo ychydig fel merch y Frenhines yn ei gardd.

Dydw i ddim yn siŵr pam fod ffens yno. Mae fel pe baen nhw'n ceisio rhoi stop ar rywbeth. 'Dyw e ddim fel pe bae perygl i rywbeth ddigwydd – oherwydd roedd e ynghanol y parc ymhell oddi wrth y ffordd. Tydw i ddim yn gwybod pam fod amser agor ar yr ardal chwarae beth bynnag. Dyw e ddim fel caffu neu fwyty. Fe dylai'r ardal chwarae gau pan fo'r parc cyfan yn cau. Ddylen nhw ddim hyd yn oed fod â ardal chwarae os ydyn nhw'n mynd i'w gloi lan.

Ffensys a meysydd chwarae yn Siapan

Ymwelodd ein cyfaill, Chris Snell, â Siapan yn gynharach eleni, ac yma mae'n dweud wrthym am ffiniau meysydd chwarae yn Siapan.

Y peth cyntaf sy'n eich taro pan ewch i mewn i faes chwarae antur Siapaneaidd yw'r diffyg ffens fawr. Mae'r rhan fwyaf o feysydd chwarae ar agor i'r cyhoedd ac mae llwybrau cyhoeddus yn croesi nifer ohonynt. Mae hyn yn golygu eu bod yn sicrhau bod yr ardal chwarae'n teimlo fel rhan o'r gymuned ac nid, fel yw'r achos yn y DU yn aml iawn, fel cilfach i blant sydd ar wahân i weddill y gymuned.

Ynghyd ag agwedd groesawus y gweithwyr chwarae tuag at oedolion sy'n ymweld â'r safle, mae llawer mwy o rieni ac oedolion eraill yn y meysydd chwarae na'r mwyafrif o safleoedd yn y DU. Yn wahanol i agwedd 'perygl dieithriaid' amheus tuag at oedolion, mae ymgyrch chwarae Siapan yn gosod pwys mawr ar ddenu oedolion i gynorthwyo fel modd o sefydlu plant a chwarae yn y gymuned. I ddweud y gwir, mae gweithwyr chwarae'n ystyried bod gweithio gydag oedolion yn rhan allweddol o'u rôl ac yn neilltuo cymaint o amser i alluogi oedolion eraill i hwyluso'r chwarae ac y maent i weithio'n uniongyrchol â'r plant.



Chwarae mewn ysbytai

Sue Simpson, Arbenigwraig Chwarae Ysbyty yn Ysbyty Prifysgol Cymru, sy'n egluro sut y caiff cyfleoedd chwarae eu hwyluso mewn ysbytai.

Mae chwarae mewn ysbytai yr un mor bwysig i blant ag yw chwarae yn unrhyw fan arall.

Mae'r Arbenigwyr Chwarae Ysbyty (HPS) yn anelu i ddarparu cymaint o gyfleoedd chwarae â phosibl, gan ystyried y cyfyngiadau gaiff eu gorfodi arnynt gan amgylchedd yr ysbyty. Mae gan y mwyafrif o ysbytai ystafelloedd chwarae ar bob ward, ac mae llawer ohonynt yn agored i'r plant trwy gydol y dydd a gyda'r nos, sy'n golygu y gall plant sydd ar eu traed fynd i'r ystafell chwarae a dewis beth maent am chwarae ag e.

Fel HPS' rydym yn sylweddoli y gall chwarae ddigwydd yn unrhyw le a ddylai materion ac offer meddygol ddim bod yn rheswm dros beidio chwarae. Mae'n rhaid i'r HPS' fod yn barod i addasu er mwyn darparu chwarae yn yr ysbyty, yn enwedig mewn sefyllfaoedd cyfyngedig, er enghraifft yr adran pelydr-x, gwelyau tyntiant ac unedau gofal dwys. Mae'n bwysig inni edrych y tu hwnt i'r anhwylder a'r offer meddygol a gweld y plentyn – sy'n aml iawn yn blentyn ofnus dros ben – a defnyddio chwarae i leddfu'r straen a achosir i'r plentyn, i'r teulu a'r staff gan orfod bod yn yr ysbyty.

Pan fo plentyn yn gaeth i'r gwely oherwydd rhesymau meddygol, yna bydd y gwely'n troi'n ofod chwarae. Yna bydd yn rhaid i'r HPS' ddwyn cyfleoedd chwarae at y plentyn. Efallai y caiff y gwely ei

drawsnewid yn babell, yn long ofod, yn fan paentio, i ddweud y gwir yn unrhyw beth fydd yn annog y plentyn i chwarae ac i deimlo, hyd yn oed am y cyfnod byrraf, fel eu bod wedi eu tynnu allan o'r amgylchedd clinigol.

Gall chwarae yn yr ysbyty gael ei ymyrryd nifer o weithiau, a thrwy hynny gyfyngu ar amser y plentyn i chwarae – amser ffisio, rowndiau wardiau, amser moddion a gwahanol driniaethau. Bydd yr HPS' yn ymdrechu i annog chwarae tra'n gweithio o amgylch yr amserau hyn. Os y bydd claf angen mynd i wahanol ran o'r ysbyty am brofion ac yn y blaen, bydd yr HPS' yn ceisio sicrhau y gall y plentyn fynd â rhywbeth gydag e / hi i chwarae, rhag ofn y bydd raid iddynt aros am amser. Gellir mynd â theganau, llyfrau ac offer bychan i'r theatr a bydd llawer o blant yn chwarae tra'n aros i gael anesthetig.

Gall amser i chwarae greu ymdeimlad o ryddid i blant sy'n gleifion, ac mae cael amser i chwarae'n rhydd yn allweddol bwysig gan nad oes gan gleifion fawr ddim rheolaeth dros yr hyn fydd yn digwydd iddynt yn yr ysbyty. Bydd yr HPS' yn annog plant ac aelodau eraill o staff i chwarae pryd bynnag y bydd cyfle.

Er gwaetha'r cyfyngiadau ar amser, gofod a rhyddid mewn amgylchedd ysbyty, rôl yr HPS' yw sicrhau bod chwarae'n parhau yn ystod cyfnod plentyn yn yr ysbyty a bod ei werth yn cael ei gydnabod fel arf therapiwtig.

Gall chwarae leihau yr ofn a'r pryder a deimlir pan gaiff plentyn ei dderbyn i'r ysbyty, ond efallai mai'r peth pwysicaf i'w gofio yw y gall chwarae yn yr ysbyty fod yn hwyl.

Dysgwch fwy yn adran Mannau Chwarae
www.chwaraecymru.org.uk

Tŷ Hafan yn dathlu Diwrnod Chwarae

Mae Tŷ Hafan, yr hosbis i blant yn Ne Cymru, wastad wedi darparu cyfleoedd chwarae a hamdden er mwyn i'r plant fydd yn aros yno allu profi hwyl a mwynhad. I ddathlu Diwrnod Chwarae cynhaliwyd wythnos o weithgareddau arbennig oedd yn cynnwys y plant, eu brodyr a'u chwiorydd a'r staff gofal.

Dathlodd yr hosbis, sy'n darparu gofal seibiant, lledfol a diwedd oes ar gyfer plant sydd â chlefydau sy'n cyfyngu ar eu hoed a'u teuluoedd, thema Diwrnod Chwarae eleni, sef chwarae mentrus, trwy ddarparu cyfleoedd i'r plant drin ymlusgiaid, dysgu sgiliau syrcau a chynnal eu gemau Olympaidd bychain eu hunain. Rhoddyd cyfle iddynt hefyd i naddu coed gyda grŵp o sgowtiaid lleol, a chrewyd ystafell aml-synhwyrol gyda goleuadau opteg ffeibrau, pibenni swigod a llawer o wrthrychau a bwydydd gwahanol ansawdd i'r plant chwarae â nhw. Roedd y peiriant eira'n ffeffryn mawr gyda'r plant (fel Samuel, yn y llun) gan ei fod yn rhoi cyfle iddyn nhw brofi rhai o'r teimladau y byddwn ni'n eu cymryd yn ganiataol.

Tŷ Hafan yw un o'r hosbisau cyntaf yn y DU i greu ei llyfrgell hamdden a theganau ei hunan. Cafodd ei hagog flwyddyn yn ôl ac mae'n cynnwys offer arbenigol i symbylu ac annog plant i fynegi eu hunain trwy chwarae.

Am fwy o wybodaeth cysyllter â Helen Gillingham, yr Ymarferwraig Chwarae Cymunedol ar 029 2053 2200
e-bost hgillingham@tyhafan.org





Diwrnod Chwarae 2008

Cynhaliwyd Diwrnod Chwarae ar Ddydd Mercher 6 Awst eleni. Cymerodd miloedd o blant a phobl ifanc ar draws Cymru ran yn y dathliadau gan fynd allan i chwarae mewn digwyddiadau a drefnwyd yn lleol.

Ffocws thema'r Diwrnod Chwarae eleni oedd chwarae mentrus a sut y mae plant angen ac eisiau her, cyffro ac ansicrwydd fel rhan o'u chwarae. Ymgorfforodd rhai cynlluniau chwarae hyn fel rhan o'u gweithgareddau, ym Mharc Tredegar er enghraifft: bu plant yn dringo coed, yn chwarae yn y tywod, yn plannu hadau ac yn defnyddio offer i lifio pren. Yn y mwyatrif o ddigwyddiadau cafodd plant gyfle hefyd i chwarae gyda dŵr, ac i greu modelau gyda sborion a sbwriel, tyllu yn y mwd, adeiladu cuddfannau a gwneud rhywfaint o weithgareddau synhwyraidd hefyd.

Ar y cyfan roedd y diwrnod yn llwyddiant ysgubol, gyda llawer o blant hapus, ond blinedig iawn, erbyn pedwar o'r gloch yn y p'nawn. Parhaodd y dathliadau ymlaen i'r nos yn yr *Oval Basin* ym Mae Caerdydd, ble y darparwyd fframiau dringo, rampiau sglefrfyrdio, gweithdai drymio, offerynnau taro a gwisgoedd a wal graffiti ar gyfer y plant gan wasanaethau Chwarae Plant Cyngor Caerdydd.

Dengys gwaith ymchwil gafodd ei ryddhau ar gyfer Diwrnod Chwarae 2008, bod plant yn wynebu cyfyngiadau difrifol ar eu cyfleoedd i brofi chwarae anturus. Gellir gweld hyn ar www.playday.org.uk/playday_campaigns/2008_give_us_a_go/2008_research.aspx



Rhodri Morgan ar Ddiwrnod Chwarae

Ar Ddiwrnod Chwarae holodd Trystan (12 oed) Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru, mewn digwyddiad ym Mharc Llanisien, Caerdydd.

Trystan: Ydych chi'n gwybod bod Persil wedi noddi Diwrnod Chwarae eleni? Ei slogan nhw yw 'dirt is good'. Beth ydych chi'n feddwl o'u hysbyseb teledu nhw?

Rhodri: Dwi'n meddwl ei fod e'n gwneud synnwyr cyffredin ac o ystyried bod yna broblem gyda ni bo plant ddim yn mynd mas ac ddim mor anturus ag o nw'n arfer bod yn fy oedran i fwy na hanner canrif yn ôl yn y 40au a'r 50au. 'Roedd llawer mwy o ryddid gyda ni fel plant i fynd mas a dod yn ôl am bedwar o gloch y prynhawn ac oedden ni'n

fwd o'n gwallt i'n traed achos oedden ni wedi bod mas mewn nentydd ac yn chwarae pêl droed. Ambell waith oedd Mam yn grac achos bo hi ddim yn hapus bo ni mor frwnt. Wrth gwrs 'doedd dim peiriant golchi ar gael bryd hynny, felly y mangl a'r hen ffordd o olchi oedd e, felly 'roedd e'n fwy o drwbl. Ond 'roedd pawb yn derbyn ei fod e'n naturiol i blant fod yn frwnt ar ddiwedd diwrnod o hwyl mas yn yr awyr agored.

Trystan: Mae fy ffrindiau a fi wedi gwneud den yn y goedwig ac rydym ni wedi gwneud pethau mas o bren yn defnyddio cyllell. Ydych chi wedi gwneud hynny?

Rhodri: Den – dyna oeddwn i wastad yn ei wneud hefyd. Dringo lan y goeden a wedi 'ny gwneud den. Wel, roedd e'n rhan o'r haf a dweud y gwir. Oni byth yn mynd mas i unlle heb gyllell yn y boced a dwi'r un peth nawr. Dwi wedi gadael y gyllell boced adref heddiw, ond pan dwi yn yr ardd neu'n mynd am wâc dwi wastad yn mynd a chyllell boced da fi. Ond, yn yr hen ddyddiau roedd pawb yn ystyried ei fod yn rhan o dyfu i fyny i fachgen, ddim i'r merched. Oedd 'da bob bachgen gyllell boced.

Trystan: Ydych chi'n meddwl bod plant heddiw yn mynd mas ddigon i chwarae?

Rhodri: Nac ydyn, yn sicr. Mae'n anodd dweud achos alla' i ddim cymharu fy mhientyndod i pan doedd dim *playstations* a dim *remote control* a doedd dim *pc's* ar gael. Felly roedd y gemau oeddech chi'n neud, heblaw am *draughts* a gwyddbwyll a gemau cardiau a phethau felly, hynny yw, gemau oedd yn golygu bo chi'n mynd mas allan yn yr awyr agored – yn rasio ar gefn beic neu oeddech chi lan y goeden yn dringo – oedd e'n fwy corfforol. Nawr mae pobl yn meddwl nad yw plant ddim yn datblygu'r galon a'r ysgyfaint ddigon da achos bo nhw ddim yn rasio rownd. Mae problem o ordewdra gyda ni ymysg plant a ni'n gorfod gwneud lan amdano fe.



Uchod: Rhodri a Joe, cyfwelydd arall, dan yr ymbarél




HWRE!

Mae Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P³) Lefel 2 bellach yn gymhwyster wedi ei achredu

Golyga hyn, erbyn mis Hydref, y bydd dros 400 o ddysgwyr yng Nghymru wedi cwblhau'r cwrs a dod yn weithwyr chwarae Lefel 2 cymwysedig.

Mae'r hyfforddiant ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Os hoffech ddysgu mwy am hyfforddiant P³, ymwelwch ag adran hyfforddiant ein gwefan neu cysylltwch â Mel Welch ar 029 2048 6050 neu â mel@chwaraecymru.org.uk



Asesu yw'r gair eleni – mae'n digwydd ym mhobman!

Mae'r Dysgwyr a gwblhaodd Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P³) y llynedd yn cael eu hasesu ... Mae Dysgwyr sy'n cwblhau P³ eleni'n cael eu hasesu ...

Ac mae fîm o bobl sydd am fod yn aseswyr P³ hefyd yn cael eu hasesu tra'n asesu dysgwyr P³ ... Felly mae'n debyg bod rhywun sydd heb fod yn bell oddi wrthych chi'n cael eu hasesu ar hyn o bryd!

Nawr bod P³ bellach yn gymhwyster, bydd yn rhaid i'r rheini sy'n dymuno ei ennill nid yn unig gymryd than yn y cwrs, ond hefyd

gwblhau nifer o adroddiadau myfyriol, ateb cwestiynau a chael eu harsylwi gan un o'n fim cynyddol o aseswyr. 'Dyw e ddim yn rhy anodd nag yn rhy ddychrynllyd, ond mae'n rhaid iddo gael ei wneud yn gywir – mae gennym wirwyr sy'n sicrhau bod hyn yn digwydd.

Ar wahân i'r ffaith ei fod yn ofyniad ar gyfer cymhwyso, mae asesu'n wirioneddol angenrheidiol ar gyfer gwaith chwarae. Rydym yn cymryd asesu o ddifrif oherwydd mae angen inni wybod bod hyfforddiant P³ yn gweithio. Rydym am weld gweithwyr chwarae cymwysedig all brofi eu bod wedi deall elfennau sylfaenol yr Egwyddorion Gwaith Chwarae fel y gallwn, yn y pen draw, sicrhau y bydd y rheini sy'n gweithio gyda phlant y tu allan i'r ysgol yn cefnogi hawl plant i chwarae yn y ffyrdd y maent yn ei ddymuno a'i angen.

'Take the credit'

2 Rhagfyr 2008 –
Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd

Mae 'Take the Credit', y gynhadledd sgiliau gwaith chwarae genedlaethol gyntaf yng Nghymru'n gynhadledd gaiff ei threfnu gan Gwaith Chwarae Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â SkillsActive.

Bydd y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, John Griffiths, yn lansio Gwaith Chwarae Cymru – y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae, yn swyddogol.

Cyflwynir canfyddiadau arolwg ymchwil gwaith chwarae *Ble wyt ti?* a cheir amrywiol weithdai y gellir eu dewis.

Mae'r gynhadledd gyffrous hon ar gyfer swyddogion datblygu gwaith chwarae, swyddogion gweithredol, darparwyr hyfforddiant, staff addysg bellach ac addysg uwch, cyflogwyr gwaith chwarae a gofal plant, gwasanaethau gwybodaeth gyrfaoedd, rheolwyr gwaith chwarae a swyddogion datblygu'r gweithlu.

Am fwy o wybodaeth neu i archebu eich lle yn y gynhadledd, ymwelwch ag adran ddigwyddiadau ein gwefan neu cysylltwch â Kate ar 029 2048 6050 neu post@chwaraecymru.org.uk



Foundations of Playwork – adolygiad llyfr

Mae gweithwyr chwarae heddiw'n gweithio mewn amgylcheddau hynod o amrywiol ac mae'n rhaid iddynt droedio llwybr cymhleth sy'n cynnwys taro cydbwysedd rhwng theori ac arfer a myfyrdod personol ag eiriolaeth cyhoeddus.

'Dyw amrywiaeth a rhychwant aruthrol yr hyn y mae gweithwyr chwarae'n ei wneud erioed wedi cael ei gynrychioli'n ddigonol mewn un lle, ond mae'r cyhoeddiad newydd hwn *Foundations in Playwork* a olygwyd gan Brown a Taylor yn anelu i unioni'r diffyg yma.

Mae Fraser Brown yn Ddarllenwydd mewn Gwaith Chwarae ym Mhrifysgol y Leeds Metropolitan ac efallai ei fod yn fwy adnabyddus fel awdur, yn cynnwys ei gyhoeddiad diweddar *The Venture: A case study of an adventure Playground* a gyhoeddwyd gan Chwarae Cymru, ac am ei waith gyda phlant amddifad yn Rwmania. Mae Chris Taylor yn ddarlithydd, yn hyfforddwr ac yn ymgynghorydd ac yn bwysicach fyth o safbwynt y llyfr hwn, yn awdur y canlyniadau dysgu ar gyfer y Radd Sylfaenol.

Fel mae'r teitl yn awgrymu, fframwaith *Foundations in Playwork* yw cwricwlwm Gradd Sylfaenol Ardystiedig y Sector Gwaith Chwarae. Mae'r 56 o benodau byrion gan 49 o wahanol gyfranwyr wedi eu trefnu'n llac i ddellio â phopeth o'r plentyn yn chwarae ac agwedd gwaith chwarae i'r cyd-destun ehangach sy'n cynnwys deddfwriaethu, rheoli ac ymchwil.

Mae penodau unigol yn defnyddio ystod o ddulliau gan gynnwys astudiaethau achos, myfyrdodau a thraethodau ac yn ystyried gwaith chwarae mewn amgylcheddau o barciau i garchardai. Un agwedd braf o *Foundations in Playwork* yw ei fod yn ystyried gwaith chwarae, ym mhob un o bedair gwlad y DU, yn ogystal â chynnyg cipolwg ar waith chwarae yn Rwmania ac UDA.

Mae'r cyfranogwyr, fel y deunydd, yn cynrychioli ystod amrywiol iawn o ddiddordebau a safbwyntiau ac yn cynnwys llawer o'r damcaniaethwyr, yr ymarferwyr, yr hyfforddwyr, yr eiriolwyr a'r llunwyr polisïau blaenaf yn y maes.

Mae'n sicr mai uchafbwynt y llyfr yw'r bennod gan Sutton Smith, y gellid dadlau mai fe yw damcaniaethwr chwarae penna'r byd. Gan ddwyn ynghyd amrywiol linyddau, gan gynnwys ei waith arloesol *The Ambiguity of Play*, mae'n cynnyg cipolwg cyffrous ar ddyfodol theori gwaith chwarae.

Mae cyfranwyr nodedig eraill yn cynnwys Perry Else, Wendy Russell, Stuart Lester, Tim Gill, Mick Conway, Annie Davy, Adrian Voce a Fraser Brown.

Mae gormod o benodau gwych i'w henwi'n unigol, ond i'r darllenwydd yma rhai o'r penodau oedd yn peri imi feddwl fwyaf oedd y traethawd gan Brown ei hun o'r Egwyddorion Gwaith Chwarae; Penny Wilson ar gynhwysiad;


Maureen Palmer ar iechyd a diogelwch; Mike Wragg ar waith chwarae *guerilla*; ac Adrian Voce ar hyrwyddo strategaethau chwarae effeithlon. Er eu bod yn bryfoclyd o fyr, mae pob un, fel hysbyseb ar gyfer ffilm dda, yn sicr o wneud ichi eistedd lan, talu sylw a dechrau meddwl.

Oherwydd natur llyfr o'r fath sydd mor eang ei gwmpas, mae'n anorod y byddwch yn cael eich gadael sawl gwaith yn mynnu rhagor – pur anaml y mae'r penodau'n hwy na phedair tudalen, felly un ychwanegiad hynod o ddefnyddiol yw'r llyfryddiaeth anodiadol o destunau gwaith chwarae dethol gan Anna Kassman-Mckerell. Mae'n sicr y bydd hwn yn hynod o werthfawr ar gyfer unrhyw un sy'n anelu i ehangu ac ymestyn eu hastudiaethau.

Mae'n bluen yn het y golygyddion bod *Foundations in Playwork* yn llwyddo i apelio i gynulleidfa eang, diolch i'w arddull hygyrch ac amrywiaeth aruthrol y cyfraniadau. Mae'r amrywiaeth yma'n gweddu'n arbennig i waith chwarae ble y mae, fel y mae'r awduron yn nodi, ystyriaeth holistig o'r plentyn yn bwysig.

Er ei fod, ar y cyfan, yn ddigon di-duedd ei oslef, mae nifer o gyfranwyr yn siarad â gonestrwydd ac argyhoeddiad trawiadol ynghylch eu meddyliau, eu teimladau a'u profiadau. Mae'r penodau â strwythur eglur ac wedi eu cyfeirnodu'n gynhwysfawr.

Mae *Foundations in Playwork* yn darparu arolwg pellgyrhaeddol a chyfredol o'r sector gwaith chwarae sy'n adlewyrchu, mewn modd argyhoeddiadol iawn, arfer gwaith chwarae cyfredol. Mae'n llwyddo i ddwyn ynghyd nifer o wahanol linyddau chwarae a gwaith chwarae mewn un gyfrol a 'does dim dwywaith y bydd yn gyfraniad o bwys i lenyddiaeth gwaith chwarae am nifer o flynyddoedd i ddod.



Gwobr Olympaidd

Yn dilyn y gemau Olympaidd yn Beijing dychwelodd y feicwraig a enillodd fedal aur, Nicole Cooke, gartref i Fro Morgannwg i groeso gwych. Bu'r rhodwyr chwarae lleol (ynghyd â'u sleid ddŵr hunan-adeiladu) yn rhan o'r dathliadau.

Fel y gwelwch yn y llun, cyflwynwyd medal arbennig wedi ei chreu o glai, pasta a phys i Nicole. Ry'n ni'n siŵr y bydd yn trysori'r fedal ddiweddaraf yma!





Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth sgiliau a chyflogaeth

Yn ddiweddar, dadlennodd Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau strategaeth newydd sy'n amlinellu sut y bydd Cymru'n cynyddu lefelau sgiliau yn y dyfodol. 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' yw'r strategaeth a'r cynllun gweithredu newydd arfaethedig dros bum mlynedd, fydd yn disodli'r Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth presennol.

Mae'r strategaeth a'r cynllun gweithredu'n cynnwys **magweddau newydd tuag at ariannu, gwasanaeth cefnogi busnes a sgiliau mwy ymatebol i ofynion, gwasanaethau sgiliau a chyflogaeth integredig gaiff eu trosglwyddo trwy bartneriaeth rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Adran Gwaith a Phensiynau a thrawsnewid y rhwydwaith dysgu.**

O fewn y Strategaeth, mae cyhoeddiadau allweddol yn cynnwys creu Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru i ddarparu cyngor credadwy, cadarn i Weinidogion Cymru ar bob mater sy'n ymwneud â sgiliau, cyflogaeth a chefnogaeth busnes.

Dywed Llywodraeth Cynulliad Cymru mai'r unig fodd y caiff yr her sgiliau tymor hir ei hateb yw os y caiff pobl ifanc gynnog gwell cyfleoedd na chenedlaethau blaenorol i sicrhau y caiff plant ddechrau da mewn bywyd. O ganlyniad i hyn, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau'r dechrau gorau posibl ar gyfer pobl ifanc trwy gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Byddant hefyd yn adolygu'r cwrwclwm ysgolion a'r fframwaith sgiliau ar gyfer plant a phobl ifanc 3-19 mlwydd oed; yn cynnog ystod o lwybrau dysgu cymwysedig ar gyfer disgyblion 14-19 mlwydd oed fel rhan o'r Fagloriaeth Gymreig; yn creu opsiynau sy'n cydweddu ag arddulliau dysgu a diddordebau myfyrwyr ac yn sicrhau bod myfyrwyr yn gwneud dewisiadau deallus ynghylch dysgu galwedigaethol.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn ymgais i ddelio â'r agenda sgiliau a chynhyrchiant ar draws Cymru, yn ehangu rhaglen ddatblygu'r gweithlu ac ariannu dewisol, yn enwedig ar gyfer datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth, a bydd yn cyflwyno Cronfa Blaenoriaethau Sector newydd i sicrhau bod ariannu ar gyfer sgiliau'n cwrdd ag anghenion sectorau allweddol.

Richard Tobutt, Rheolwr Rhaglen dros Gymru, SkillsActive

Fforwm Gweithwyr Chwarae

Scott Rowley, Swyddog Datblygu Chwarae o Sir y Fflint, sy'n rhannu ei brofiadau o'r Fforwm Gweithwyr Chwarae yng nghanolbarth Cymru.

Gyda datblygiad ein maes chwarae antur cyntaf yn Sir y Fflint, roedd y 'cyfarfod' i weithwyr chwarae'n ymddangos fel cyfle perffaith i ennill rhagor o wybodaeth. Roedd y lleoliad yn awgrymu'r hyn allem ei ddisgwyl dros y cwpwl o ddyddiau nesaf – ynghanol unman, yn ôl at natur ond gyda'r moethusrwydd o gyfleusterau ty bach a chawod (oedd yn fwy nag oeddem wedi ei ddisgwyl yn wreiddiol!)

Y gweithdy cyntaf imi ei fynychu oedd Asesu Ansawdd, oedd yn edrych ar brofiadau o'n plentyndod ein hunain mewn amgylcheddau chwarae, ac yna'n eu cymharu â'r hyn yr ydym yn ei gynnog yn awr i blant yn yr un ardal. Fe wnaeth hyn nid yn unig imi gwestiynu elfennau penodol allai fod ar goll o'n darpariaeth bresennol, ond hefyd i edrych ar ffyrdd y gallem ei gyfoethogi er mwyn inni gynnog y profiad chwarae mwyaf amrywiol posibl.

Wedi cinio da, fe ymunais â'r gweithdy Chwarae â'r Elfennau, roddodd gyfle i'r cyfranogwyr gael hwyl ac ennill sgiliau newydd. Erbyn diwedd y sesiwn hon, roedd rafftiau wedi eu creu a'u rasio i lawr yr afon, roedd 'ffrâm A' a gwifr-lithren wedi eu hadeiladu a than wedi ei gynnu.

Rhoddodd natur hamddenol y cwrs preswyl yma gyfle i'r cyfranogwyr gyfnewid syniadau a phrofiadau a chafodd ei



gyfoethogi gan agwedd 'ymarferol' y gweithdai. Bandiau, barbeciw a choelcerth – beth arall alla' i ei ddweud!

Ar yr ail ddiwrnod dewisais y gweithdy Adeiladu Strwythurau, roddodd ryddid i'r cyfranogwyr gynllunio ac adeiladu strwythur. Gan fod fy swydd yn golygu fy mod yn gaeth i'r swyddfa y rhan fwyaf o'r amser, rhoddodd hyn brofiad ymarferol gwych imi ac yn enwedig gan fod ein maes chwarae antur yn dal yn y cyfnod cynnar, fe roddodd gipolwg imi ar y gwahanol fathau o offer ac arddulliau y gellid eu defnyddio.

Mae'r fforwm yma'n hanfodol ar gyfer unrhyw un sydd ynghlwm â chwarae antur. Trwy bwyslais ymarferol y digwyddiad, mae'n eich galluogi i asesu eich darpariaeth chwarae presennol mewn modd beirniadol, ennill sgiliau newydd na fydddech yn eu hennill fel arfer, yn ogystal â rhannu arfer da gyda gweithwyr chwarae eraill o bob cwr o Gymru.



Digwyddiadau

23 Hydref 2008

Cynllun Sicrhau Ansawdd ar gyfer Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol a Chwarae Mynediad Agored yng Nghymru: Grŵp Ffocws Cymru Gyfan

Gwesty'r Metropole, Llandrindod

www.clybiauplantcymru.org

Safonau ac Arweiniad ar Gamau Gweithredu o fewn Cynllun Gweithredu'r Polisi Chwarae

7 Hydref, Llandrindod

8 Hydref, Abergele

14 Hydref, Caerdydd

15 Hydref, Caerfyrddin

Play2@yorkconsulting.co.uk

2 Rhagfyr 2008

'Take the Credit' – Gwaith Chwarae Cymru a SkillsActive

Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd

www.chwaraecymru.org.uk

Pennu dyddiad ar gyfer Cynhadledd IPA 2011

Yn gynharach eleni fe gyhoeddodd y byddwn yn cynnal cynhadledd fyd-eang yr *International Play Association* (IPA) yn 2011 ar ei 50ed pen-blwydd. Wedi treulio wythnosau'n chwilio am y lleoliad perffaith allai gynnal digwyddiad ar raddfa mor fawr, rydym o'r diwedd wedi penderfynu ar Neuadd y Ddinas Caerdydd a byddwn yn cael defnydd neilltuedig o'r adeilad ar gyfer yr wythnos gyfan.

Cynhelir y gynhadledd o Ddydd Llun 4 tan Ddydd Gwener 8 Gorffennaf 2011. Rydym yn dal i fod yng nghyfnod cynnar y gwaith cynllunio, ond mae gennym eisoes gronfa dda o syniadau fydd, gobeithio, yn golygu y bydd hon yn un o'r cynadledau mwyaf cofiadwy i'r IPA ei chynnal erioed.

Os oes gennych ddi-ddordeb yn y gynhadledd, cysylltwch â Gill Evans ar 029 2048 6050 neu â gwybodaeth@chwaraecymru.org.uk

*I'r rheini ohonoch sy'n rwydweithwyr cymdeithasol brwd, rydym wedi creu grŵp yn ddiweddar ar Facebook sy'n cynnwys y newyddion diweddaraf yn rheolaidd, a thrafodaethau anffurfiol ynghylch y gynhadledd.

Os hoffech ymuno â'r grŵp, ymwelwch â www.facebook.com/group.php?gid=25996491058.

Ffarwelio â Ben

Mae Ben Tawil, un o'r Swyddogion Datblygu Chwarae yng Ngogledd Cymru, wedi symud ymlaen. Yn ffodus, 'dyw e ddim wedi crwydro yn rhy bell gan ei fod wedi derbyn swydd Arweinydd Rhaglen ar y radd Chwarae a Gwaith Chwarae ym Mhrifysgol Glyndŵr.

Dros y ddwy flynedd a hanner diwethaf bu Ben yn allweddol mewn nifer o brosiectau ar gyfer Chwarae Cymru, gan gynnwys y Fforwm Maes Chwarae Antur – dim ond Ben allai fwstro digon o gyfaredd i gael pobl gall i 'crashio' mewn cae ar dywydd rhewlyd (a mwynhau eu hunain

â dod yn ôl am ragor!). Mae wedi cynnig cefnogaeth hynod o werthfawr i waith chwarae yng Ngogledd Cymru a bu'n gyfrannwr allweddol i hyfforddiant Chwarae Cymru, Gwaith Chwarae: Rhoi Egyddorion ar Waith (P³). Mae'r rhestr yn unfaith!

'Does dim rhaid dweud y bydd pob un ohonom yn gweld ei eisiau'n fawr iawn a dymunwn bob llwyddiant iddo yn ei swydd newydd.

Pryd ga' i ddod lawr?



Gwobrau

Ymddiriedolaeth Goffa Y Fonesig Allen o Hurtwood 2009

Gwahoddir ceisiadau ar gyfer Gwobrau 2009 Y Fonesig Allen, a ddyfernir i ymgeiswyr sy'n gweithio gyda phlant, i deithio ac ehangu eu profiad proffesiynol a'i roi ar waith. Mae'r grantiau, a ddyfernir yn flynyddol, fel arfer hyd at £1000.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 15 Ionawr 2009

Am fwy o wybodaeth, ffurflenni a chanllawiau, ymwelwch â: www.ladyallentrust.org neu ysgrifennwch at Caroline Richards, 89 Thurleigh Road, Llundain SW12 8TY